Henry Thomas Jacob, ‘Jacobs Abergwaun’, 1864–1957

Gweinidog (A), darlithydd, llenor a bardd

O na ddôi’r nefol wynt
i chwythu eto,
fel bu’n y dyddiau gynt
drwy’n gwlad yn rhuthro
nes siglo muriau’r tŷ
a phlygu dynion cryl;
O deued oddi fry –
mae’n bryd i’w deimlo.

H.T. Jacobs

Ganed H. T. Jacob yn Nhreorci, Cwm Rhondda, Morgannwg, ar 14 Rhagfyr 1864, yr ail o ddeg o blant Thomas Jacob a’i wraig Ann. Gof oedd ei dad wrth ei alwedigaeth a dysgodd H.T. Jacobs y grefft honno ganddo. Y gwaith olaf a wnaeth oedd y giât sy’n arwain i mewn i gapel Bethlehem (MC) Treorci. Codwyd ef i bregethu yn eglwys Bethania, lle roedd Dr Ben Davies yn weinidog, ac ym 1885 aeth i ysgol Watcyn Wyn yn Rhydaman i’w baratoi ei hun ar gyfer coleg. O’r fan honno aeth i Fanceinion i goleg yr Annibynwyr, sef y Lancashire Independent College. Yn gyfoedion iddo yno yr oedd Dr J.D. Jones, Bournemouth a’r Prifathro Thomas Lewis, Aberhonddu. Priododd ar 20 Awst 1890 â Margaret Ellen Evans o Landeilo a chawsant bump o blant, dwy ferch a thri mab.

Bu’n gweinidogaethu mewn tair eglwys yn ystod ei oes, sef Bethel, Trecynon, Aberdâr, Peniel ger Caerfyrddin, a’r Tabernacl, Abergwaun. Yr oedd yn enwog fel pregethwr efengylaidd, grymus ac effeithiol a dynnai’r tyrfaoedd i wrando arno’n agor gair Duw yn drawiadol. Dyma ychydig frawddegau o bregeth a draddododd yng nghyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr ym Mrynaman.

> Peth diddorol yw dilyn cwrs unrhyw gelfyddyd, pe bai ond y process o wneud papur. Dilyner y cwrs hwn ac fe'n synnir yn fawr. Fe ddywedodd rhywun y gallai droi carpiau budron, ysbwriel y tomennydd yn bapur gwyn a glân... Dilynwch y carpiau i'r olchfa a'r chwalfa, lle y tynnir hwynt edefyn oddi wrth edefyn, ac ymlaen o beiriant i beiriant ac o law i law, nes o'r diwedd fe'u gwelir ar bapur gwyn a graenus ar fwrdd palas y brenin. Mae pellter mawr rhyngddo yn awr a'r hyn oedd gyntaf... Os goddefir i mi ddweud, o ddefnyddiau a geir ar domennydd pechod y mae Duw yn llunio'r saint; "Yr Hwn sydd yn codi'r tlawd o'r llwch, a'r anghenus o'r domen."

Ymddiddorai mewn barddoniaeth hefyd trwy gydol ei oes a chyhoeddwyd cyfrol o'i waith, sef *Caneuon y Bwthyn*, ym 1945. Cyfansoddodd nifer o emynau adnabyddys yn ogystal, a daeth yn ddarlithydd poblogaidd gan siarad ar destunau megis 'Yr hen godwr canu', 'Yr hen goliar' a 'General Booth'. Un o'r rhesymau pam roedd cymaint o weinidogion yn cymryd at ddarlithio oedd ei fod yn eu galluogi i ennill ychydig geiniogau yn fwy tuag at y cyflogau gwael yr oedd llawer ohonynt yn eu derbyn gan eu heglwysi. Roedd gan H.T. Jacob ddiddordeb mawr yn y genhadaeth dramor hefyd, diddordeb a'i harweiniodd i gyhoeddi *Dilyn y wawr* a *Cofiant Hopcyn Rees*. Aeth ar daith i Dde'r Affrig ym 1923 lle y cyfarfu â phennaeth Khama, a chael cyfle i bregethu iddo.

Bu farw ei wraig ym 1950, ac yntau ym 1857, a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent capel y Tabernacl, Abergwaun.